

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

22 Mehefin 2018

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Mai 2018. Trafododd y Pwyllgor Cyllid eich ymateb yn ystod ein cyfarfod ar 13 Mehefin 2018.

Ar ran y Pwyllgor Cyllid, dyma nodi gyda gofid eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE. Ar ben hynny, ni chawsom ymateb ysgrifenedig i'n hymgyngoriad gan eich swyddfa. Brexit yw'r mater mwyaf sy'n wynebu Prydain ar hyn o bryd, a bydd ei effaith ar Gymru a'i phobl yn anferthol. Bydd sicrhau'r cytundeb gorau posibl rhwng y DU a'r UE yn ariannol yn gosod y cyd-destun economaidd i Gymru am flynyddoedd i ddod.

Rydym wedi dechrau cymryd tystiolaeth er mwyn llywio'r ymchwiliad hwn, ac mae llawer ohoni wedi canolbwyntio ar rôl Llywodraeth y DU. Gwelwyd yr un thema droeon gan sefydliadau a rhanddeiliaid ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth y DU am y Gronfa Ffyniant a Rennir a'r ansicrwydd o ran ei ffurf ac ynghylch ei llywodraethu yn y dyfodol.

Gan mai cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried buddiannau Cymru yn llawn wrth iddi wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith yng Nghymru, rydym yn siomedig dros ben yn eich diffyg ymgysylltu mewn perthynas â mater o bwys mawr i Gymru.


O ystyried yr ansicrwydd yr ydym ei wynebu, byddem yn ddiolchgar am gael diweddariad ysgrifenedig ar y sefyllfa ac yn eich annog i ailystyried dod i gyfarfod y Pwyllgor fel y gall Aelodau ymdrin â'r mater hwn ymhellach. Rydym yn gwerthfawrogi'r sensitifrwydd gwleidyddol o ran y trafodaethau ymadael ac felly byddem yn barod i gynnal sesiwn frifio



neu drafodaeth breifat gyda chi neu'ch swyddogion, pe bai hynny yn fwy addas ar yr adeg hon yn y trafodaethau. Byddem yn falch pe gallech fod yn bresennol trwy gyfrwng cynhadledd fideo, neu os yw dod i Gaerdydd yn broblem i chi, gallem drefnu i'r Pwyllgor gyfarfod yn Llundain.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Cofion cynnes,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Simon Thomas'.

Simon Thomas AC

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English

